Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ysbyty Cymunedol y Barri

## Dyddiad y gweithgarwch: 22 Medi 2020

Dyddiad cyhoeddi: 22 Hydref 2020





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-80082-371-6



WG41024 (h) Hawlfraint y Goron 2020

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliwyd gwiriad ansawdd o bell gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Ward Morgannwg, Ysbyty Cymunedol y Barri fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Agorodd Ward Morgannwg, sydd ger Ward Sam Davies, 11 o welyau ychwanegol yn ystod pandemig COVID-19. Dywedwyd wrthym fod Ward Morgannwg wedi cael ei had-drefnu a'i hadnewyddu i safon uchel. Roedd y ddwy ward yn cael eu rhedeg fel un uned, gydag un Brif Nyrs Ward a Dirprwy Brif Nyrs yn gyfrifol am yr uned.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad ag Uwch-Nyrs a Phrif Nyrs y Ward ar 22 Medi 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

## Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; a'r newidiadau a wnaed ganddo i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar unigolion. Gwnaethom adolygu polisïau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod y ward wedi cynnal yr archwiliadau asesiad risg angenrheidiol ac wedi datblygu gweithdrefnau perthnasol er mwyn bodloni'r gofynion ychwanegol a oedd yn deillio o bandemig COVID-19.

Gwelsom fod gweithdrefnau derbyn clir ar waith a oedd yn cynnwys meini prawf ar gyfer COVID-19. Gwelsom fod y ward wedi cwblhau asesiadau risg ar gyfer cadw pellter cymdeithasol a rhoddwyd mesurau rheoli ar waith. Gwelsom fod ciwbicl wedi cael ei gadw'n wag ar bob ward er mwyn gallu ynysu cleifion a oedd yn dechrau dangos symptomau ar unwaith. Dywedwyd wrthym fod y gwelyau ar y ward wedi cael eu lleoli ddau fetr oddi wrth ei gilydd. Yn ogystal â hyn, gall cleifion ddefnyddio'r ystafell ddydd gan gadw pellter cymdeithasol. Mae hyn yn galluogi cleifion i gymdeithasu'n ddiogel yn yr ystafell ddydd heb orfod aros wrth ymyl eu gwelyau.

Gwelsom fod trefniadau ymweld â chleifion safonol ar y ward wedi cael eu gohirio yn ystod y pandemig, yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, roedd proses ymweld ar gyfer cleifion diwedd oes wedi cael ei chyflwyno.

Dywedwyd wrthym fod gan y ward ddigon o gyfarpar diogelu personol (PPE) a bod lefelau stoc yn cael eu monitro'n rheolaidd. Sefydlwyd ystafell storio PPE ddynodedig newydd er mwyn sicrhau y gellir cael gafael ar PPE yn brydlon. Gwnaethom hefyd nodi ei bod yn ofynnol i'r staff newid i mewn i'w gwisg ar y safle er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu.

Dywedwyd wrthym fod ffonau symudol a llechi yn cael eu darparu i gleifion nad oeddent yn gallu cael ymwelwyr wyneb yn wyneb oherwydd bod y trefniadau ymweld wedi cael eu gohirio, a bod y staff wedi treulio amser yn helpu'r cleifion i gysylltu â'u ffrindiau a'u perthnasau.

Cafodd ystafell staff y ward ei hadleoli i ystafell fwy er mwyn galluogi'r staff i gymryd egwyliau gan gadw pellter cymdeithasol.

Cafodd Ward Morgannwg ei hagor i gleifion am y tro cyntaf rhwng 11 Ebrill a 30 Ebrill 2020. Gwelsom fod y ward wedi cael ei hailagor ar 29 Mai am dair wythnos er mwyn trosglwyddo cleifion ffrwd oren (cleifion nad ydynt yn dangos arwyddion o COVID-19 ac nad ydynt yn hunanynysu) a chleifion ffrwd las (cleifion sydd wedi cael diagnosis o COVID-19 a bod o leiaf 14 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r symptomau ddechrau ac nad oes ganddynt unrhyw symptomau bellach) i'r ward. Nid oedd angen sicrhau bod mwy o welyau ar gael. Fodd bynnag, trefnodd yr Uwch-Nyrs a Phrif Nyrs y Ward fod nyrs gofrestredig ychwanegol yn gweithio ar y sifft o ganlyniad i gynllun y ward.

Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod sawl achos o COVID-19 ar ward Sam Davies yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2020. Dywedwyd wrthym, o ganlyniad i hynny, bod y cleifion i gyd wedi cael eu symud allan o Ward Sam Davies a'u lleoli ar Ward Morgannwg ar unwaith er mwyn gallu ynysu unrhyw achos a amheuir o COVID-19 yn brydlon, tra bod Ward Sam Davies

yn cael ei glanhau'n drylwyr. Cafodd cleifion eu grwpio gyda'i gilydd, yn dibynnu ar eu statws COVID-19 fel y cynghorwyd gan y tîm Rheoli ac Atal Heintiau. Roedd y ward hefyd yn gallu cael gafael ar y tîm Rheoli Heintiau neu'r tîm Clefydau Heintus i gael cyngor a chymorth 24 awr y dydd. Dywedwyd wrthym, tra bod Ward Sam Davies yn cael ei glanhau'n drylwyr, cafodd Ward Morgannwg ei haddurno â rhesi o faneri bach a fflagiau, a chafodd y cleifion de parti bwffe i ddathlu Diwrnod VE, gyda'r cleifion a'r staff yn mwynhau eu hunain.

Rhoddwyd gwybod am bob achos a gadarnhawyd o COVID-19 a phob achos o COVID-19 a amheuir bob dydd drwy friff 'Chief Executive Connects' ac yn ystod y cyfarfodydd gweithrediadau dyddiol. I ddechrau, roedd y canllawiau Atal a Rheoli Heintiau yn cynghori'r staff y gellid trosglwyddo cleifion i Ward Sam Davies a Ward Morgannwg heb gymryd swab i gadarnhau a oedd ganddynt COVID-19 ai peidio, cyhyd â bod y cleifion yn asymptomatig. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r achosion o COVID-19 ar Ward Sam Davies, cyflwynwyd trefniadau swabio cleifion cyn eu trosglwyddo i'r safle gan iddynt gredu bod yr achosion ar Ward Sam Davies wedi deillio o glaf a gafodd ei heintio ar safle acíwt yn cael ei drosglwyddo heb gymryd swab.

Dywedwyd wrthym fod nifer o staff hefyd wedi eu heintio â COVID-19 dros y cyfnod hwn ond ni allai'r ward nodi ffynhonnell heintiau'r staff, ac eithrio'r nifer o gleifion COVID-19 ar y ward a oedd wedi'u heintio. Defnyddiwyd y PPE cywir ar y ward yn unol â'r canllawiau cyfredol ar y pryd.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw aelod o staff oedd â symptomau, neu staff yr oedd gan aelodau o'u haelwyd symptomau, wedi ynysu'n brydlon a threfnwyd eu bod yn cael swabiau brys yn ôl yr angen. Roedd pob aelod o'r staff yr ystyriwyd eu bod yn wynebu risg yn hunanynysu neu'n gwarchod. Lle y bo'n briodol, roedd y staff yn dychwelyd i'r gwaith yn dilyn asesiad risg. Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg COVID-19 Cymru Gyfan wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff.

Dywedodd Prif Nyrs y Ward wrthym fod y nyrs atal heintiau arbenigol yn ymweld â'r ward yn rheolaidd i gefnogi'r staff. At hynny, dywedwyd wrthym fod ffeil COVID-19 wedi cael ei chreu ar y ward i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff.

Canmolodd yr Uwch-Nyrs a Phrif Nyrs y Ward staff y ward am y ffordd y maent wedi ymateb i anghenion y ward, y cleifion a'r ffordd y maent wedi cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom nodi bod archwiliad asesiad risg amgylcheddol wedi cael ei gwblhau ar lefel ward. Dywedwyd wrthym for Prif Nyrs y Ward yn mynd ati'n rhagweithiol i fonitro amgylchedd y ward bob dydd. Dywedwyd wrthym hefyd fod Prif Nyrs y Ward a'r Swyddog Cadw Tŷ yn cynnal archwiliad/gwiriad o'r ward bob wythnos er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

Cawsom wybod bod urddas y cleifion yn cael ei ddiogelu'n llawn drwy ddefnyddio llenni preifatrwydd ac arwyddion yn briodol ar y ward. Mae cyfleusterau toiled un rhyw ar gael, cawod, bath a mynediad i'r ystafell ddydd. Cynhaliwyd asesiad risg o'r ward o ran cadw pellter cymdeithasol rhwng cleifion.

Cawsom wybod y gall y ward gael gafael ar gyflenwad o ddillad a nwyddau ymolchi gan dîm Profiad y Claf os byddai angen unrhyw beth arnynt. Fodd bynnag, anogwyd yr ymwelwyr i ddarparu eu dillad eu hunain i gleifion lle y bo'n bosibl, a chasglu dillad i'w golchi o leoliad dynodedig ar safle'r ysbyty. Dywedwyd wrthym, ar un achlysur, bod un aelod o'r staff wedi trefnu'n bersonol i ddillad claf gael eu gadael y tu allan i gartref y teulu, am fod yr aelod o'r teulu yn gwarchod. Nodwyd bod hyn yn arfer nodedig o ran sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal ac yn galluogi teuluoedd i fod yn rhan o ofal eu hanwyliaid.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw gleifion sy'n wynebu risg o gwympo yn cael eu lleoli gyferbyn â gweithfan y nyrsys. Mae hyn yn galluogi'r staff i weld y cleifion yn glir. Darperir weipiau dwylo i gleifion nad ydynt yn gallu cyrraedd sinc i olchi eu dwylo.

Cawsom wybod bod y staff yn cwblhau rhestr wirio ‘rowndiau bwriadol’ ar gyfer pob claf drwy gydol y dydd. Mae'r rhestr wirio ‘rowndiau bwriadol’ yn cynnwys cadw llygad ar bob claf er mwyn sicrhau bod ganddo bopeth sydd ei angen arno ac er mwyn sicrhau bod y staff yn fwy gweladwy i'r cleifion sy'n rhoi sicrwydd iddynt.

Mae amrywiaeth o archwiliadau wedi'u trefnu er mwyn cefnogi diogelwch y cleifion ar y ward, sy'n cynnwys archwiliadau ar gwympiadau a briwiau pwyso a niwed i'r feinwe. Gwnaethom edrych ar sampl o'r rhain a gwelsom fod sgoriau cadarnhaol wedi cael eu cyflawni yn gyffredinol.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisïau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom wybod bod Prif Nyrs y Ward yn cynnal archwiliadau ar reoli heintiau, hylendid dwylo a glendid cyffredinol y ward yn wythnosol.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau'n ddiweddar a gwelsom nad oedd unrhyw gamau gweithredu wedi cael eu nodi.

Mae gan yr ysbyty nyrs gyswllt benodedig ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r ward er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i ganllawiau neu arferion. Gwelsom fod polisïau Atal a Rheoli Heintiau (IPC) ar waith gyda gweithdrefnau clir. Gwnaethom hefyd nodi fod y Bwrdd Iechyd wedi cofrestru ar gyfer y llawlyfr Atal a Rheoli Heintiau Cenedlaethol sydd ar gael yn electronig.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar reoli heintiau. Roedd gan y staff fynediad at hyfforddiant 'gwisgo a diosg' PPE ar-lein a chawsant hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ddiweddarach. Roedd Prif Nyrs y Ward hefyd wedi trefnu bod poster wedi'i lamineiddio yn cael ei arddangos mewn lleoliadau amrywiol ar y ward i atgoffa'r staff o'r gofynion o ran PPE. Gwnaethom nodi fod y tîm atal a rheoli heintiau hefyd wedi hwyluso sesiynau holi ac ateb i'r staff.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisïau (megis uwchgyfeirio).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod Prif Nyrs y Ward a'r Uwch-Nyrs wedi rhoi gweithdrefnau addas ar waith ar gyfer sicrhau bod lefelau staffio yn briodol ac yn cynyddu pan fo angen, er enghraifft cynnydd yn lefelau dibyniaeth ar y ward neu absenoldeb staff. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod tua

19 o therapyddion wedi cael eu hadleoli o adrannau ffisiotherapi, therapi galwedigaethol a phodiatreg i'r ward yn ystod y pandemig. Nid oedd gan yr Uwch-Nyrs na Phrif Nyrs y Ward unrhyw reolaeth dros y rota therapi ac o ganlyniad felly, roedd niferoedd y staff yn anodd i'w rheoli weithiau er mwyn cadw pellter cymdeithasol. Cawsom wybod fod y Bwrdd Iechyd wedi cydnabod hyn a bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu hystyried yn y gwaith o gynllunio ar gyfer gaeaf.

Dywedwyd wrthym fod y staff therapi a gafodd eu hadleoli i'r ward wedi nodi bod eu profiad o weithio ar y ward wedi bod yn un cadarnhaol iawn. Yn ogystal â hynny, roedd y cleifion yn cael budd o gymorth therapi ychwanegol a oedd ar gael iddynt saith diwrnod yr wythnos. Nodwyd hefyd fod y therapyddion a'r nyrsys bellach yn gwerthfawrogi rolau ei gilydd yn fwy.

Cawsom ddata ar gyfraddau salwch a oedd yn ymddangos yn isel ac yn sefydlog. Dywedwyd wrthym fod Prif Nyrs y Ward yn annog diwylliant cefnogol ac yn gweithredu polisi drws agored.

Cawsom ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer y tîm a gwelsom fod cyfradd uchel o gydymffurfio ym mhob maes.

Hefyd, cawsom wybodaeth am arfarniadau'r staff a nodwyd bod nifer fawr o'r aelodau o staff wedi cael arfarniad blynyddol.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.